CFOA
Chief Fire Officers Association

# Rhestr wirio trefnydd






# Cynllunio Diogelwch Digwyddiad

Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**
**South Wales** Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**YN EICH CEFNOGI CHI I AMDDIFFYN EICH BUSNES**

## Nod y canllawiau hyn

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i gynnig gwybodaeth ac arweiniad gwerthfawr a chyson i drefnwyr digwyddiadau newydd neu ddibrofiad wrth gynllunio ar gyfer digwyddiadau a gwyliau bach a chanolig. Yn yr un modd, gellir ei ddefnyddio fel cymorth cof i dimau mwy profiadol wrth gynllunio eu digwyddiadau.

Er gwnaed pob ymdrech i ddarparu canllawiau perthnasol, efallai bydd achosion lle gall rheoliadau ac amodau awdurdodau lleol fod angen ystyriaeth a chynllunio ychwanegol.


**Cydnabyddiadau**

Mae'r sefydliadau canlynol hyn wedi darparu gwybodaeth ac arweiniad yn ystod datblygiad y ddogfen hon:

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Sir Penfro

# Trefniadau Cynllunio Diogelwch Digwyddiadau

## Rhestr Wirio Trefnydd y Digwyddiad


| ADRAN | | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1 | Cysyniad y Digwyddiad a Threfniadau Rheoli | 5 |
| 2 | Dyluniad o'r Lleoliad a'r Safle | 8 |
| 3 | Strwythurau Symudol Dros Dro (SSDD) | 9 |
| 4 | Diogelwch Trydanol | 10 |
| 5 | Diogelwch Tân | 11 |
| 6 | Trefniadau Rheoli Torfeydd | 12 |
| 7 | Cludiant | 13 |
| 8 | Cynhyrchu a Nodweddion y Sioe | 14 |
| 9 | Cyfleusterau Safle | 15 |
| 10 | Gwybodaeth Leol Arall | 17 |
| 11 | Rhestr o Ddogfennau Gofynnol | 17 |
| 12 | Crynodeb o'r Cyfarfod | 18 |

**Atodiad 1** Darpariaeth Cyflenwad Dŵr

**Atodiad 2** Rhestr Wirio Arlwyo Awyr Agored

**Atodiad 3** Asesiad Risg Tân - Consesiynau

**Atodiad 4** Asesiad Risg Tân - Masnachwyr a Stondinau Marchnad

**Atodiad 5** Asesiad Risg Tân - Strwythurau Dros Dro

**Atodiad 6** Dogfennaeth Canllaw

| | |
|---|---|
| **Enw'r Digwyddiad** | |
| **Lleoliad y digwyddiad gan gynnwys cod post neu gyfeirnod grid** | |
| **Dyddiad(au) y digwyddiad** | |
| **Dyddiadau digwyddiadau cylchol** | |

| | |
|---|---|
| **Trefnydd y digwyddiad / cwmni rheoli digwyddiadau** | |
| **Cyfeiriad** | |
| **Prif fanylion cyswllt:** | |
| **Enw** | |
| **Rhifau Ffôn** | |
| **E-bost** | |

| | |
|---|---|
| **Lleoliad Cyfarfod GYDD** | |
| **Dyddiad y cyfarfod(ydd)** | |
| **Cyflwyniad gan** | |
| **Cwmni** | |

## 1: Cysyniad y Digwyddiad a Threfniadau Rheoli

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Cysyniad | ▪ Math o ddigwyddiad<br>▪ Disgrifiad<br>▪ Dan do / awyr agored<br>▪ Nifer o ddyddiau<br>▪ Amser cychwyn / gorffen<br>▪ Gwersylla a charafanio / neu garafanio | |
| 1.2 | Strwythur rheoli'r digwyddiad | ▪ Manylion yr Hyrwyddwr<br>▪ Rheolwr y Safle<br>▪ Swyddog Diogelwch<br>▪ Prif bartneriaid<br>▪ Trwyddedai safle<br>▪ Perchennog y lleoliad | |
| 1.3 | Perfformiad | ▪ Math a nifer y perfformwyr<br>▪ Rhyngweithio â'r dorf<br>▪ Gorymdeithiau<br>▪ Gweithgarwch uwch ben<br>▪ Manylion y diweddglo<br>▪ Effeithiau arbennig | |
| 1.4 | Mynychwyr / cynulleidfa | ▪ Maint arfaethedig y gynulleidfa<br>▪ Math o gynulleidfa / proffil<br>▪ Ffactorau Arbennig<br>▪ Eistedd / sefyll / cyfuniad o'r ddau | |
| 1.5 | Tocynnau | ▪ Nifer<br>▪ Gwesteion Arbennig<br>▪ Gwerthwyd ymlaen llaw<br>▪ Amodau<br>▪ Eithriadau | |
| 1.6 | Gwybodaeth berthnasol | ▪ Digwyddiadau Eraill<br>▪ Gweithgareddau gwrthdrawiadol ar y safle / oddi ar y safle | |
| 1.7 | Trwyddedu:<br>▪ Gwerthiant alcohol<br>▪ Adloniant a reoleiddir<br>▪ Lluniaeth Hwyr | ▪ Angen trwydded safle / TEN<br>▪ Deiliad Trwydded Bersonol<br>▪ Amserlen weithredu: Amcanion Trwyddedu<br>▪ Atal trosedd ac anhrefn<br>▪ Diogelwch y Cyhoedd<br>▪ Atal niwsans cyhoeddus<br>▪ Amddiffyn plant<br>▪ Polisi ar yfed dan oed<br>▪ Polisi diogelwch cyffuriau | |

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1.8 | Asesiadau risg | I gwmpasu:<br>▪ Adeiladu<br>▪ Llwytho mewn<br>▪ Digwyddiad<br>▪ Dadwneud<br>▪ Llwytho allan | |
| 1.9 | Cynlluniau diogelwch | Dylai cynllun diogelwch digwyddiad gynnwys manylion:<br>▪ Cysylltiadau digwyddiad.<br>▪ Rolau a chyfrifoldebau rheoli.<br>▪ Amserlenni digwyddiad.<br>▪ Datganiad dull.<br>▪ System gyfathrebu a sut bydd hyn yn gweithio.<br>▪ Cynllun Diogelwch tân.<br>▪ Cynllun wrth gefn.<br>▪ Cynllun tywydd garw.<br>▪ Rheoli torfeydd.<br>▪ Stiwardio a chynllun diogelwch.<br>▪ Cynllun argyfwng.<br>▪ Cymorth cyntaf a chynllun argyf-wng meddygol.<br>▪ Cynllun rheoli traffig.<br>▪ Cynllun glanhau.<br>▪ Cynllun consesiwn | Cynllun diogelwch digwyddiad – **cyflwynwyd 28 diwrnod cyn y digwyddiad** |
| 1.10 | Rheoli gweithwyr cyflogedig / contractwyr | ▪ Cynefino â'r Safle<br>▪ Briffiau<br>▪ Cymhwysedd<br>▪ Goruchwylio<br>▪ Monitro ac adolygu<br>▪ ôl-drafodaethau | |

## 2: Dyluniad y Lleoliad a'r Safle

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Disgrifiadau Safle | ▪ Arwynebedd<br>▪ Topograffeg<br>▪ Cyflwr tir<br>▪ Mynediad i'r safle ac o'i gwmpas<br>▪ Gwasanaethau cyfredol, h.y. llinellau uwchben a gwasanaethau tanddaearol<br>▪ Eiddo cyffiniol<br>▪ Safle'r digwyddiad, maes parcio, caeau gwersylla a ddefnyddir gan anifeiliaid sy'n pori<br>▪ Cyfeiriad cyffredinol y gwynt<br>▪ Perygl llifogydd<br>▪ Maint lleoliadau unigol<br>▪ Cynllun lleoliad / cynllun safle | |
| 2.2 | Ffensys / rhwystrau perimedr y safle | ▪ Oes / Nac Oes<br>▪ Meini prawf dyluno<br>▪ Math<br>▪ Cwmpas<br>▪ Llwytho | |
| 2.3 | Mynediad / ymadael cyn y digwyddiad ac yn ystod y digwyddiad | ▪ Gatiau mynediad<br>▪ Rheoli / llif / maint<br>▪ Arwyddion<br>▪ Gwirio tocynnau / gwirio ymlaen llaw<br>▪ Archwiliadau diogelwch<br>▪ System sain y dorf<br>▪ Trefnu meysydd parcio / ffyrdd | |

## 3: Strwythurau Symudol Dros Dro (SSDD)

| | Pwnc | Cynnwys |
|---|---|---|
| 3.1 | Strwythurau Dros Dro e.e.:<br>▪ Pebyll mawr<br>▪ Llwyfannau<br>▪ Rhwystrau<br>▪ Sgriniau<br>▪ Nenbontydd goleuo<br>▪ Llwyfannau Seddi<br>▪ Tyrrau Sain<br>▪ Gosodiadau celf<br>▪ Offer ag aer | ▪ Bydd strwythurau dros dro yn cydymffurfio â'r egwyddorion a roddir yn y ddogfen gyfarwyddyd Strwythurau Symudol Dros Dro 3ydd Argraffiad a gyhoeddwyd gan Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol. Cyflwynir cyfrifiadau dylunio manwl a lluniau o bob strwythur pe gofynnir amdanynt.<br>▪ Dylai Contractwyr / dylunwyr SSDD a logir i ddylunio, cyflenwi, adeiladu, rheoli a thynnu strwythur i lawr fod yn gymwys.<br>▪ Ar gyfer pebyll mawr a marquees, argymhellir bod y contractwr yn aelod o MUTAmarq neu gymhwyster cyfatebol.<br>▪ Ar gyfer strwythurau ag aer, argymhellir bod y contractwr yn aelod o gymdeithas fasnach berthnasol (e.e. AIMODS, NAIH neu BIHA) ac yr archwilir eu hoffer o dan gynllun arolygu PIPA neu ADIPS.<br>▪ Darperir tystysgrif diogelwch i bob strwythur dros dro cyn eu defnyddio.<br>▪ Darperir cynllun rheoli gwynt a gaiff ei fonitro gan berson cymwys yn ystod y digwyddiad. |

**Manylion Strwythur** (Rhowch ddisgrifiad byr o bob un)

| Math | Maint | Beth fydd y defnydd | Enw'r Cyflenwr / cynllunydd / gosodwr |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 4: Diogelwch Trydanol

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Gosodiad Trydanol | ▪ Cynllunydd Gosod<br>▪ Gontractwr Gosod<br>▪ Pwy fydd yn profi, archwilio ac ardystio gosod yr uchod<br>▪ Enw'r ardystiwr / Cymhwysedd (NICEIC / ECA)<br>▪ Person a enwebwyd ar y safle i oruchwylio'r gosodiad sydd i'w ddefnyddio?<br>▪ Math o gyflenwad (generadur / prif gyflenwad)<br>▪ Noder: Dim generaduron petrol<br>▪ Manylion y Gosodiad<br>▪ Daearu<br>▪ Defnyddio RCDs<br>▪ Adeiladu / diogelu offer sy'n agored i dywydd<br>▪ Mewn digwyddiad a gynhelir mewn tywyllwch, manylwch y safle cyffredinol, dulliau dianc a goleuadau argyfwng<br>▪ Dyddiad archwilio lefel golau'r safle<br>▪ Arddangoswyr / unedau arlwyo i gael ardystiad cyfredol.<br>▪ Tystysgrifau i fod ar y safle.<br>▪ Rhaid i holl offer cludadwy gan gynnwys ceblau gael ardystiad PAT cyfredol.<br>▪ Sut cyflawnir cydymffurfiaeth? Pwy fydd yn gyfrifol? Pa dystiola-eth fydd ar y safle?<br>▪ Rheoli a chyfyngu mynediad i osodiadau trydanol / generaduron<br>▪ Llwybrau ceblau | |

## 5: Diogelwch Tân

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Diogelwch Tân (atodiad 3) | ▪ Asesiad risg diogelwch tân wedi ei gwblhau ar gyfer pob lleoliad<br>▪ Allanfeydd a llwybrau argyfwng<br>▪ Faint mae'r lleoliad yn ei ddal<br>▪ Arwyddion<br>▪ Goleuadau argyfwng<br>▪ Offer tân / systemau larwm<br>▪ Rheoli mynediad (y cyhoedd a gwasanaethau brys)<br>▪ Llety Cysgu<br>▪ Coelcerthi<br>▪ Barbeciws<br>▪ Defnydd o LPG<br>▪ Llosgi Bwriadol<br>▪ Risgiau Arbennig | |

## 6: Trefniadau Rheoli Torfeydd

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Rheoli symudiadau torfeydd | ▪ Asesiad risg<br>▪ Defnydd o rwystrau<br>▪ Meini prawf cynllunio<br>▪ Math / Maint<br>▪ Llwytho<br>▪ Effaith ar lwybrau dianc | |
| 6.2 | Systemau stiwardio a diogelwch | ▪ Manylion contractwr(wyr)<br>▪ Gofyniad SIA<br>▪ Swydd-ddisgrifiadau<br>▪ Niferoedd / lleoliadau<br>▪ Rheoli a chyfathrebu<br>▪ Cyswllt<br>▪ Cymhwysedd y darparwyr<br>▪ Sefydlu a briffio | **Enwau llawn a rhifau cofrestru i'w darparu i'r awdurdod lleol 7 diwrnod cyn y digwyddiad.** |
| 6.3 | Cynlluniau argyfwng e.e. tân, methiant strwythurol, damweiniau, tywydd garw, diffyg argaeledd staff allweddol, canslo artistiaid | ▪ Cyfrifoldebau<br>▪ Awdurdod / terfynau<br>▪ Ymatebion cyfnodol<br>▪ Canolfan reoli / cyswllt<br>▪ Ymgynghori â'r gwasanaethau brys | |
| 6.4 | Cymorth cyntaf / argyfwng meddygol i staff, contractwyr a'r gynulleidfa | ▪ Manylion contractwr(wyr)<br>▪ Ymgynghoriad â gwasanaeth ambiwlans y GIG<br>▪ Lefel yswiriant<br>▪ Cysylltiadau â'r GIG<br>▪ Swyddi / lleoliadau<br>▪ Cofnodi Achosion | |

## 7: Cludiant

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Cludiant | ▪ Cynllun rheoli trafnidiaeth<br>▪ Mynediad diogel a hwylus<br>▪ Llwybrau ar wahân i gerddwyr / gerbydau<br>▪ Llwybrau Argyfwng<br>▪ Trefniadau wrth gefn ar gyfer tywydd gwael, h.y. craidd caled, ffyrdd trac metel, gwellt, naddion pren<br>▪ Tarfu ar draffig / cludiant oddi ar y safle<br>▪ Parcio ceir / bysus<br>▪ Gollwng / Codi<br>▪ Ymgynghori â darparwyr trafnidiaeth<br>▪ Ffyrdd sydd angen eu cau<br>▪ Cysylltu â'r Heddlu /  priffyrdd / asiantaeth cefnffyrdd | |

## 8: Cynhyrchu'r Sioe a Nodweddion

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Rheoli Sŵn | ▪ Manylion contractwr(wyr)<br>▪ Ffynonellau<br>▪ Math<br>▪ Hyd<br>▪ Capasiti niwsans<br>▪ Mesurau rheoli sŵn amgylcheddol<br>▪ Rheoli sŵn ar gyfer cynulleidfa / stiwardiaid<br>▪ Trefniadau Cyswllt | |
| 8.2 | Effeithiau arbennig | ▪ Manylion contractwr(wyr)<br>▪ Tân gwyllt<br>▪ Laserau<br>▪ Goleuadau Strôb<br>▪ Effeithiau mwg ac anwedd<br>▪ Darparwyd gan<br>▪ Amseru / Lleoliad | |
| 8.3 | Difyrion ac atyniadau | ▪ Tystysgrifau Prawf ar gyfer offer ffair (ADIPS) | |

## 9: Cyfleusterau'r Safle

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Darpariaeth i bobl anabl | ▪ Niferoedd a nodwyd<br>▪ Tywyswyd<br>▪ Gwylio<br>▪ Hylendid / Llety<br>▪ Monitro | |
| 9.2 | Toiledau | ▪ Yn seiliedig ar faint y gynulleidfa<br>▪ Nifer / cymhareb / arwyddion<br>▪ Lleoliad<br>▪ Math<br>▪ Cynnal a chadw<br>▪ Cyfleusterau ar gyfer y criw / staff arlwyo | |
| 9.3 | Arlwyo | ▪ Manylion contractwr(wyr)<br>▪ Lleoliad(au)<br>▪ Cofrestrwyd â'r A Ll<br>▪ Sgôr Hylendid Bwyd (disgwylir 3 neu'n well)<br>▪ System Giwio<br>▪ Cyfleusterau ymolchi i staff arlwyo a'r cyhoedd | Criw ☐ PBI ☐ Arlwyo cyhoeddus ☐<br>Consesiynau ☐<br><br>Mae Rhestr Wirio Arlwyo Awyr Agored i'w gweld yn Atodiad 2.<br>**Mae rhestr o enwau, cyfeiriadau, manylion cyswllt a manylion sgôr hylendid bwyd pob safle bwyd (gan gynnwys y rhai sy'n rhoi bwyd i ffwrdd fel rhan o arddangosiad) i'w darparu 21 diwrnod cyn y digwyddiad.** |
| 9.4 | Gwastraff | ▪ Manylion contractwr(wyr)<br>▪ Sbwriel ar y safle<br>▪ Gwaredu swmpus<br>▪ Contractwr<br>▪ Gwastraff peryglus | sbwriel ☐ swmpus ☐ clirio'r safle ☐ |
| 9.5 | Gwasanaethau Gwybodaeth | ▪ Mannau Cyfarfod<br>▪ Adfer plant<br>▪ Trefniadau Lles | |

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 9.6 | Cyflenwad dŵr | ▪ Gofynion / Defnydd Dŵr<br>▪ Cynlluniau<br>▪ Asesiad risg<br>▪ Cynllun Argyfwng<br>▪ Diheintio<br>▪ Samplo | (Gweler atodiad 1) |
| 9.7 | Draenio | ▪ Gofynion Gwaredu<br>▪ Safle<br>▪ Tanciau<br>▪ Defnydd cerbydau | |
| 9.8 | Ysmygu | ▪ Mae pob strwythurau sylweddol caeedig yn ddi-fwg<br>▪ Arwyddion<br>▪ Polisi ysmygu | |

## 10: Gwybodaeth Leol Arall

| | Pwnc | Cynnwys | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Gweithgaredd Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau (GYDD) | ▪ Cyfarfod Safle<br>▪ Ôl-drafodaeth dyddiol<br>▪ Arfarnu'r digwyddiad<br>▪ Pasys i'r digwyddiad | |
| 10.2 | Ystyriaethau Eraill<br><br>Gall gwahanol grwpiau GYDD fod yn hyrwyddo rhai nodweddion o'r digwyddiad neu'n cynnal archwiliadau penodol | | |

## Dogfennau sydd eu hangen i Asesu Trefniadau Diogelwch y Cyhoedd

| Teitl | Yn Gymwys | Derbyniwyd Do / Naddo | Gwiriwyd gan | Anfonwyd at |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Grid o'r Safle | | | | |
| Cynllun Rheoli Diogelwch Digwyddiadau | | | | |
| Cynllun Argyfwng | | | | |
| Asesiadau Risg Tân | | | | |
| Cynllun Cymorth Cyntaf ac Argyfwng Meddygol yn cynnwys cyfrifiadau | | | | |
| Cynllun Stiwardio a Diogelwch yn cynnwys cyfrifiadau | | | | |
| Cynllun(iau) Lleoliad [graddfa 1: 25000] | | | | |
| Cynllun(iau) Safle [graddfa 1: 1250] | | | | |
| Cynlluniau neu luniadau manwl o strwythurau penodol | | | | |
| a chynlluniau mewnol [graddfa 1: 100/1: 50/1: 20] fel bo'n briodol | | | | |
| Manyleb gosodiad trydanol | | | | |
| Manylion pob strwythur dros dro gan gynnwys datganiadau cynllunio, darluniau perthnasol, ad-rannau / gweddluniau, cyfrifiadau strwythurol, a chynllun rheoli gwynt. | | | | |
| Asesiad risg cyflenwad dŵr | | | | |

## Crynodeb o'r Cyfarfod

| | Adran | Pwnc | Manylion | Gweithredwyd gan |
|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | |
| 2 | | | | |
| 3 | | | | |
| 4 | | | | |
| 5 | | | | |
| 6 | | | | |
| 7 | | | | |
| 8 | | | | |
| 9 | | | | |
| 10 | | | | |
| 11 | | | | |
| 12 | | | | |
| 13 | | | | |
| 14 | | | | |
| 15 | | | | |
| 16 | | | | |

**FFURFLEN ENGHREIFFTIOL**

# Gwarchod y Cyhoedd - Rheoli Llygredd
# Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010
# Darpariaeth Cyflenwad a Dosbarthu Dŵr mewn Digwyddiadau Dros Dro

| Manylion o'r digwyddiad | | I'w gwblhau gan drefnydd y digwyddiad: | DYDDIEDIG |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth y Trefnydd | ▪ Prif enw cyswllt, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost<br>▪ Hyd y digwyddiad, nifer y bobl sy'n debygol o fynychu. | | |
| **Manylion cyflenwad dŵr dros dro** | | | |
| Disgrifiad | ▪ Rhestrwch bob defnydd dŵr a fwriedir<br>▪ Math o gysylltiad (Prif Gyflenwad, Cyflenwad Preifat neu Dancer?) | | |
| Cynlluniau | Darparwch gynllun o'r safle i ddangos y canlynol:<br>▪ y rhwydwaith dosbarthu cyflenwad dŵr<br>▪ y lleoliad (au) a disgrifiad o'r cysylltiadau, safbibellau, tanceri a bowseri<br>▪ falfiau atal ôl-lifo<br>▪ cyfeiriad y llif<br>▪ i nodi lleoliad y pwyntiau allweddol (pympiau, gan nodi eu maint)<br>▪ ffynhonnell ddŵr sy'n dod i mewn<br>▪ mannau defnydd (toiled, basnau ymolchi a chyfleusterau cawod, pwyntiau dŵr yfed, paratoi bwyd)<br>▪ mannau triniaeth a samplo, e.e. i ddiheintio clorin, dad-glorineiddio a phrofi dŵr<br>▪ seilwaith argyfwng | | |
| Asesiad Risg | Darparwch asesiad risg o'r trefniadau cyflenwad dŵr:<br>▪ i restru ac asesu'r risgiau posib ar y safle a all achosi halogiad o'r cyflenwad dŵr neu gyflenwad dŵr annigonol<br>▪ i'r mesurau sydd i'w cymryd i reoli neu atal y risgiau hyn<br>▪ i'r gwiriadau a'r gweithdrefnau monitro sydd i'w cyflawni i sicrhau bod y mesurau rheoli hyn ar waith, e.e. samplo ac arolygiadau parhaus<br>▪ i'r camau i'w cymryd os bydd y mesurau rheoli hyn yn methu<br>*Nodyn 1: O dan y Rheoliadau mae'n ofyniad gorfodol i ymgymryd ag asesiad risg o'r cyflenwad dŵr dros dro.* | | |

<table>
<tr><th colspan="2">Manylion o’r digwyddiad</th><th>I’w gwblhau gan drefnydd y digwyddiad:</th><th>DYDDIEDIG</th></tr>
<tr><td>Cynllun Argyfwng</td><td>Darparwch ddatganiad dull i ddisgrifio:<br>▪ ymdrin â digwyddiadau llygru<br>▪ methiant cyflenwad dŵr<br>▪ manylion derbyn a dosbarthu cyflenwadau dŵr eraill</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Diheintio</td><td>Darparwch ddatganiad dull i:<br>▪ amlinellu sut y storir pibellau a ffitiadau i osgoi halogiad.<br>▪ y weithdrefn ar gyfer diheintio pibellau<br>Nodyn 1: dylai deunydd pibell gael ei gymeradwyo ar gyfer cyswllt â dŵr yfed fel y nodir yn Rheoliad 31 o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010.<br>Nodyn 2: Ar gyfer cysylltiadau dŵr o’r prif gyflenwad, rhaid bod dyfais atal ôl-lifiad yn y man cysylltu â’r prif gyflenwad fod ar waith cyn diheintio. Bydd angen i hyn gael ei arolygu gan Ddŵr Cymru Welsh Water.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Samplu</td><td>▪ Bydd angen cymryd samplau dŵr i sicrhau bod yr holl bibellau wedi’u diheintio. Rhaid cyflwyno canlyniadau’r labordy i’r adran Rheoli Llygredd ar unwaith (cyn y digwyddiad). Pe bai’r canlyniadau microbiolegol yn annerbyniol, bydd Rheoli Llygredd yn gofyn am ailadrodd y gwaith diheintio a samplu.<br>Nodyn 1: Gall Rheoli Llygredd wneud cais i ymgymryd â’r samplu dŵr. Bydd rhaid i drefnydd y digwyddiad dalu tâl gwasanaeth a chostau dadansoddi mewn labordy.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><th colspan="4">Gwybodaeth ychwanegol</th></tr>
<tr><td colspan="3">Gall RHEOLI LLYGREDD gyflwyno Rhybudd (Rheoliad 18 o Reoliadau 2010 Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru)) i drefnydd y digwyddiad os oes perygl posib i iechyd dynol. Gall yr Hysbysiad gyfyngu defnydd y cyflenwad dŵr dros dro a chynnwys amodau ar gyfer gwelliannau i’w gwneud ar unwaith.</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">Bydd RHEOLI LLYGREDD yn cynnal arolygiad pan fydd y rhwydwaith dosbarthu cyflenwad dŵr yn ei le cyn cychwyn y digwyddiad. Ar adegau bydd yr ymweliad hwn ar y cyd â DCWW.</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">DŴR CYMRU WELSH WATER (DCWW). Mewn achos lle bydd cysylltiad â’r prif gyflenwad dŵr, fel rhan o’u dyletswyddau rheoleiddio bydd DCWW yn cynnal archwiliad i sicrhau bod y gosodiadau a’r ffitiadau yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">YN YSTOD Y DIGWYDDIAD. Os oes angen, gall swyddog gynnal arolygiadau pellach a samplu yn ystod y digwyddiad.</td><td></td></tr>
</table>

**DYLID DYCHWELYD Y FFURFLEN HON AT REOLI LLYGREDD YNGHYD Â CHYNLLUN CYFLENWAD DŴR, ASESIAD RISG A CHYNLLUN ARGYFWNG**

## Rhestr Wirio Arlwyo Awyr Agored

**ATODIAD 2**

Bwriedir i'r rhestr wirio eich helpu i sicrhau bod eich busnes bwyd yn gweithredu i'r safonau hylendid uchaf drwy gydol y digwyddiad. Mae'r rhestr wirio hon yn seiliedig ar Ganllawiau Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer Digwyddiadau Arlwyo Awyr Agored. Dylech weithio drwy'r rhestr wirio a sicrhau fod gennych bopeth yn ei le cyn y digwyddiad.

**Os byddwch yn ateb "Na/Naddo/Nac ydw" i unrhyw un o'r cwestiynau, rhaid i chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r mater, neu'r broblem bosib, cyn i'r digwyddiad gael ei gynnal.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r Busnes Bwyd | | | |
| Digwyddiad | | Dyddiad | |

| | Oes/ Ydw/ Ydyn/ Do/ Ydy | Nac Oes/ Nac Ydw/ Nac Ydyn/ Naddo/ Nac Ydy |
|---|---|---|
| **Sgôr Hylendid Bwyd** | | |
| **A oes gan eich busnes bwyd sgôr hylendid bwyd o 3 neu'n well a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol rydych wedi cofrestru ag ef?**<br>Mae'n well ar gyfer unrhyw fusnes bwyd sy'n masnachu mewn digwyddiad bod ganddo sgôr o 3 neu well, sy'n dynodi yr aseswyd y busnes fel un sy'n masnachu hyd at o leiaf safon foddhaol o ran hylendid bwyd.<br>Os nad oes gennych sgôr gyfredol, neu os oes gennych sgôr o 2,1 neu 0, cewch gysylltu â'ch awdurdod lleol a sicrhau y cyhoeddir sgôr, neu os cyflawnwyd gwaith adfer gennych yn dilyn sgôr wael, cewch ofyn am ail ymweliad gan yr A Ll cofrestru i ail-sgorio eich eiddo, cyn y digwyddiad os bydd amser yn caniatáu. | ☐ | ☐ |
| **System Rheoli Diogelwch Bwyd** | | |
| **Ydych chi wedi datblygu system rheoli diogelwch bwyd ar gyfer eich gwasanaeth arlwyo awyr agored? (e.e. Pecyn Bwyd Diogelach Busnes Gwell).**<br>Rhaid i'ch system reoli fod yn berthnasol i'ch arferion trin bwyd yn y digwyddiad.<br>Hefyd, rhaid sicrhau eich bod yn dod â'r ddogfen hon gyda chi i'r digwyddiad. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gyflenwad o daflenni monitro i'w defnyddio yn y digwyddiad?** | ☐ | ☐ |
| **Staff Trin Bwyd** | | |
| **A yw pob un o'ch staff trin bwyd (gan gynnwys staff dros dro) wedi'u hyfforddi, eu goruchwylio ac wedi cael cyfarwyddyd digonol yn eu dyletswyddau disgwyliedig?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gofnodion hyfforddiant hylendid staff i wirio'r uchod?**<br>Rhaid darparu tystiolaeth.. | ☐ | ☐ |
| **A roddwyd cyflenwad o ddillad amddiffynnol personol glân i'ch staff i'w gwisgo yn y digwyddiad?** Mae'n rhaid i staff gael eu darparu â dillad amddiffynnol dros eu dillad eraill. Nid yw'n dderbyniol i staff drin / gweini bwyd mewn dillad awyr agored / bob dydd. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gyflenwad o ffedogau ar wahân i'r staff hynny sy'n ymwneud â pharatoi bwyd amrwd?** Argymhellir ffedogau plastig tafladwy i drin a pharatoi bwyd amrwd | ☐ | ☐ |
| **A yw eich staff yn ymwybodol na ddylent drin bwyd os ydynt yn dioddef o afiechydon penodol?** Rhaid iddynt fod yn rhydd o symptomau am 48 awr os yn dioddef o salwch a dolur rhydd. | ☐ | ☐ |

| | Oes/ Ydw/ Ydyn/ Do/ Ydy | Nac Oes/ Nac Ydw/ Nac Ydyn/ Naddo/ Nac Ydy |
|---|---|---|
| **A amddiffynwyd eich uned yn ddigonol rhag tywydd garw?** Os na, bydd angen i chi ystyried yr hyn a ellir ei wneud i amddiffyn y safle dan sylw. | ☐ | ☐ |
| **A yw eich uned mewn cyflwr da, yn gallu cael ei lanhau ac wedi'i warchod rhag pla?** | ☐ | ☐ |
| **A seliwyd yr holl arwynebau gwaith a byrddau paratoi, neu y'u gorchuddiwyd, â deunydd anhydraidd, golchadwy?** (e.e. dur di-staen, fformica, lliain bwrdd golchadwy) | ☐ | ☐ |
| **A ddiogelwyd arwyneb y llawr yn ddigonol gennych yn eich ardaloedd paratoi bwyd?** Lle cynhelir y digwyddiad ar laswellt, nid yw'n dderbyniol i weithredu heb ryw fath o orchudd llawr golchadwy. Dylai gorchuddion llawr dan do fod yn ddi -slip. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych offer rheweiddio digonol ar gael, ac a fedr gadw bwydydd risg uchel islaw +8oC drwy gydol y digwyddiad?** Rhaid cael gwahaniad da rhwng bwydydd amrwd a bwydydd sy'n barod i'w bwyta ar bob adeg. Ni argymhellir defnyddio blychau oer ar gyfer storio bwydydd risg uchel am gyfnodau hir o amser. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych le storio digonol mewn rhewgell ar gael, ac a yw'n gweithio'n iawn?** Rhaid cael gwahaniad da rhwng bwydydd amrwd a bwydydd sy'n barod i'w bwyta ar bob adeg. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych offer addas ar gyfer coginio a chadw eich bwyd yn boeth?** Rhaid i fwyd gael ei goginio uwchlaw +75°C am 30 eiliad (neu'n gyfatebol). Rhaid i fwyd gael ei gadw'n boeth yn uwch na +63°C. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych ddigon o le paratoi fel y gellir osgoi croes halogiad?** Rhaid i chi ymdrechu i gael gwahaniad llwyr rhwng ardaloedd a ddefnyddir i baratoi cynnyrch amrwd (yn enwedig cig) a bwydydd sy'n barod i'w bwyta. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych fyrddau torri â chodau lliw sydd mewn cyflwr da?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gyfarpar coginio ar wahân, neu â chod lliwiau, ar gyfer bwydydd amrwd a bwydydd sy'n barod i'w bwyta?** | ☐ | ☐ |
| **A oes digon o fasnau golchi dwylo ar gyfer eich uned o ystyried ei maint, nifer y staff a maint y bwyd y rhagwelir y bydd yn cael ei drin?** *(NODER: Nid yw powlen ar ei phen ei hun yn dderbyniol fel basn golchi dwylo. Rhaid bod ffordd effeithiol o ddraenio i gynhwysydd dŵr gwastraff o'r basn golchi dwylo).* Lle rhennir staff rhwng cynnyrch amrwd a bwyd sy'n barod i'w fwyta, yn ddelfrydol dylai fod basnau golchi dwylo ar wahân ar gyfer pob ardal. Os nad oes, dylai o leiaf fod modd o ddiheintio'r basn golchi dwylo ar ôl trin bwyd amrwd. | ☐ | ☐ |
| **A ddarparwyd cyflenwad dŵr poeth ac oer i'r basnau ymolchi?** Ni chymeradwyir defnyddio dŵr poeth yn syth o wrn neu decell gan nad yw staff yn debyg o olchi'u dwylo'n gywir. | ☐ | ☐ |
| **A oes gan eich basn ymolchi gynhwysydd dŵr gwastraff addas?** Nid yw bwced agored yn addas. Dylai'r cynhwysydd dŵr gwastraff gael gwddf â sgriw lle gellir sgriwio caead. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gyflenwad priodol o sebon hylfol gwrthfacterol i bara'r digwyddiad cyfan?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gyflenwad priodol o dywelion papur i sychu dwylo?** Ni chymeradwyir tywelion llaw a wnaed o ddeunydd. | ☐ | ☐ |
| **Noder:** Nid yw'r defnydd o fenig tafladwy mewn digwyddiad yn esgusodi busnesau rhag golchi dwylo. Dylid newid menig yn rheolaidd a dylid golchi dwylo bob tro y newidir menig. | | |

| | Oes/ Ydw/ Ydyn/ Do/ Ydy | Nac Oes/ Nac Ydw/ Nac Ydyn/ Naddo/ Nac Ydy |
|---|---|---|
| **A oes gennych sinc ddigon mawr i gynnwys eich holl gyfarpar a chynwysyddion bwyd?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gan eich sinc gyflenwad addas o ddŵr poeth ac oer?** | ☐ | ☐ |
| **A yw'r dŵr gwastraff yn draenio i gynhwysydd priodol?**<br>Rhaid marcio'r rhain yn glir fel "cynwysyddion dŵr gwastraff". | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych ddigon o gynhwysyddion dŵr glân?**<br>Dylid marcio'r rhain fel "dŵr glân yn unig". | ☐ | ☐ |
| **A yw eich cynwysyddion dŵr glân yn lân?**<br>Rhaid diheintio cynwysyddion dŵr glân drwy ddefnyddio hydoddiant o fath Milton a'u swilio cyn eu defnyddio. Hefyd, rhaid iddynt gael caeadau arnynt i atal llygriad. | ☐ | ☐ |
| **A lanhawyd eich uned yn drylwyr ers eich digwyddiad diwethaf?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gyflenwad digonol o glytiau glân?**<br>Yn ddelfrydol, dylai'r rhain fod yn rhai untro tafladwy. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych gyflenwad digonol o lanweithydd bwyd-diogel, neu ddiheintydd, sy'n cydymffurfio â SB EN 1276 a SB EN 13697?**<br>Argymhellir eich bod yn defnyddio cynnyrch wedi ei wanhau ymlaen llaw sy'n barod i'w ddefnyddio - rhaid i staff fod yn ymwybodol o'r isafswm gofynnol o ran amser cyswllt. | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych finiau â chaead ar gyfer bwyd a gwastraff arall?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych drefniadau ar gyfer casglu a gwaredu olew gwastraff?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych thermomedr profi digidol sy'n gweithio?**<br>Rhaid i chi gael un ar y safle a rhaid iddo fod mewn cyflwr da, glân a gweithiol. | ☐ | ☐ |
| **A oes cadachau glanweithio chwiliedydd ar gael i lanhau a diheintio'r thermomedr?** | ☐ | ☐ |
| **A oes gennych focs cymorth cyntaf wedi ei stocio'n addas â phlasteri lliw llachar?**<br>(Fel arfer yn las - nid yw rhai lliw'r croen yn dderbyniol). | ☐ | ☐ |
| **A gynhaliwyd yr holl gyfarpar a'r offer nwy a thrydanol yn addas?**<br>Gellir gofyn am Dystysgrifau Diogelwch Nwy a thystiolaeth o wiriadau trydanol (ar gyfer offer ac unrhyw eneraduron). *Noder: Rhaid i geblau trydanol gael eu cyfeirio neu eu gorchuddio â rampiau cebl priodol.* | ☐ | ☐ |
| **A storiwyd pob silindr nwy yn briodol?**<br>Dylid cadw silindrau nwy mewn lle cwbl ar wahân i weddill yr uned. Rhaid iddynt fod mewn man sy'n gwrthsefyll tân am ½ awr, wedi ei selio, man y gellir ei gloi a awyrwyd ac a labelwyd yn ddigonol. Dylai silindrau dros ben gael eu storio mewn compownd dan glo. | ☐ | ☐ |

| Camau cywiro i'w cymryd cyn cynnal y digwyddiad |
| --- |
| |

Rydych yn debygol o dderbyn ymweliad gan un o Swyddogion y Tîm Diogelwch Bwyd yn ystod y digwyddiad. Os na aed i'r afael ag unrhyw un o'r pwyntiau a ddisgrifir yn y rhestr wirio hon, efallai cewch gyfarwyddyd i gau dros dro hyd nes y cymerir camau unioni.

Os ydych yn methu rheoli'r risg o groeshalogi, neu os na chynhelir bwydydd risg uchel o dan reolaeth tymheredd priodol, cewch gyfarwyddiadau i gau nes y datrysir y broblem. Efallai bydd gofyn i chi hefyd gael gwared ar fwyd a allai fod yn halogedig.

Efallai yr hoffech ddod â'ch rhestr wirio orffenedig i'r digwyddiad i ddangos i'r Swyddog pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau bod eich bwyd yn ddiogel.

# Asesiad Risg Tân - Consesiynau Bwyd

**ATODIAD 3**

**TO BE COMPLETED FOR EACH UNIT/STALL IN LINE WITH NATIONALLY RECOGNISED FIRE RISK ASSESSMENT GUIDES**

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân perthnasol **RHAID** i chi gwblhau Asesiad Risg Tân o'ch stondin neu eich uned.

Mae angen i'r Asesiad Risg nodi'r peryglon tân a'r bobl mewn perygl.
Rhaid i chi ymdrechu i waredu neu leihau'r risgiau hyn a diogelu pobl rhag tân. Bydd methiant i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn golygu y gwaherddir eich uned o'r safle. Rhaid i chi gynnig ateb cadarnhaol i'r cwestiynau canlynol. Rhaid i'r ffurflen lofnodedig, gyflawn hon fod ar gael i'w harolygu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub / Trefnydd Digwyddiad / Swyddogion Cyngor ar bob adeg.

Rhaid cynnal Asesiad Risg Tân ar gyfer eich uned a rhaid iddo fod yn addas i'r amgylchiadau.
Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon a chewch ddefnyddio dull arall os dymunwch. Fodd bynnag, ystyrrir y ffurflen hon yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o unedau bwyd safonol lle nad yw cwsmeriaid yn mynd i mewn i'r uned.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiad** | | | | | |
| **Enw a Lleoliad Yr Uned** | | | | | |
| **Dyddiad/Amser** | Dechrau | | Diwedd | | |
| **Unit Details** | Person â Gofal | | | | |
| | Math a Defnydd yr Uned | | | | |
| | Maint ($m^2$) | | | | |
| | Meddiannaeth Gyfansymiol | Staff | | | |
| | | Cyhoedd | | Cyfanswm | |

| | | | Cam / Sylw |
|---|---|---|---|
| 1. A oes gennych dystysgrif diogelwch nwy / arolygiad ar gyfer y peiriannau a'r pibellau (copi i fod ar gael i'w arolygu) ac a oes ffasninau crimpiedig gan yr holl gysylltiadau pibell? | Oes | Nac Oes | |
| 2. A ydy'r peiriannau coginio wedi'u gosod yn sownd ar fan anhylosg cadarn sy'n inswleiddio gwres ac a amgylchynwyd gan orchuddion o ddeunydd tebyg ar dair ochr? | Ydyn | Nac Ydyn | |
| 3. A ydy'r gorchuddion yn darparu rhwystr digonol ac effeithiol o 600mm o leiaf rhwng ffynhonnell y gwres ac unrhyw ddeunydd hylosg? | Ydyn | Nac Ydyn | |
| 4. A ydych wedi sicrhau nad oes unrhyw ddeunyddiau hylosg yn gallu cael eu chwythu yn erbyn y cyfarpar, neu'n gallu cwympo ar y cyfarpar? | Ydw | Nac Ydw | |
| 5. A ydy'r silindrau LPG yn cael tu allan, neu mewn uned benodol sydd wedi'i hawyru, wedi'u gosod yn unionsyth yn ddiogel, ac allan o gyrraedd y cyhoedd? | Ydyn | Nac Ydyn | |
| 6. A ydych yn sicrhau mai'r silindrau sy'n cael eu defnyddio yn unig a gedwir yn eich uned/stondin? *(Dylid cadw cyn lleied â phosibl ohonynt yn sbâr gan wneud hynny'n unol ag unrhyw amodau penodol ar gyfer y digwyddiad)* | Ydw | Nac Ydw | |
| 7. A ydy'r silindrau nwy yn hawdd eu cyrraedd fel y gellir eu hynysu'n hwylus mewn argyfwng? | Ydyn | Nac Ydyn | |
| 8. A ydy'r silindrau wedi'u lleoli'n ddigon pell o fynedfeydd, allanfeydd argyfwng, a llecynnau lle mae llawer yn cerdded? | Ydyn | Nac Ydyn | |

| | | Cam / Sylw |
|---|---|---|
| 9. A ydych yn sicrhau bod y nwy a gyflenwir wedi'i ynysu yn y silindr, yn ogystal â'r peiriant pan nad yw'r cyfarpar yn cael ei ddefnyddio, a bod peiriannau'n cael eu gosod â dyfeisiau diogelwch fflam llawn ar yr holl losgyddion na ellir eu gweld yn hawdd? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 10. A ydych yn sicrhau bod silindrau newydd a osodir yn lle hen rai yn cael eu gosod yn yr awyr agored mewn man digon pell wrth ffynonellau cynnau tân? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 11. A oes aelod o staff, sydd wedi cael hyfforddiant priodol o ran defnyddio lpg yn ddiogel, yn bresennol yn yr uned bob amser? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 12. A ydy strwythur, to, waliau a ffitiadau eich stondin neu eich uned yn gwrthsefyll fflamau? *(Fel arfer bydd angen tystysgrifau cydymffurfiaeth)* | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 13. Lle bo'r angen, a oes arwyddion cyfeirio digonol sy'n dynodi'r llwybr dianc priodol ac sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 14. A ydy'r allanfeydd a gynhelir ar gael, yn glir rhag rhwystrau, a heb eu cloi bob amser y mae'r uned yn cael ei defnyddio? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 15. Os ydych yn bwriadu masnachu yn ystod oriau twyllwch, a oes digon o oleuadau gennych y tu mewn a'r tu allan i'ch uned? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 16. Petai'r goleuadau arferol yn methu, a fyddai'r deiliaid yn gallu mynd allan yn ddiogel? *(ystyriwch gael goleuadau wrth gefn)* | Byddant ☐ Na Fyddant ☐ | |
| 17. A oes gennych nifer digonol o offer diffodd tân/ blancedi tân mewn mannau amlwg ac yn hwylus i'w defnyddio? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 18. A ydy'r offer ymladd tân wedi cael ei brofi yn y 12 mis diwethaf? *Noder: fel arfer bydd angen tystysgrif gydymffurfiaeth* | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 19. A ydy'r staff wedi cael cyfarwyddyd ynghylch sut mae gweithredu'r offer ymladd tân a ddarperir? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 20. A ydy eich staff wedi cael gwybod beth y dylent ei wneud pe bai rhywbeth yn mynd o'i le, sut mae rhybuddio pobl a gwacáu'r uned, a ble mae lleoliadau'r allanfeydd? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 21. A ydych yn ymwybodol nad oes hawl i gael generaduron petrol ar y safle? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 22. A ydych wedi nodi'r holl ffynonellau cynnau tân ac wedi sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddigon pell o'r deunyddiau llosgadwy? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 23. A ydych wedi nodi deunyddiau hylosg a allai achosi i dân ledaenu'r tu hwnt i'r pwynt cynnau megis papur/cardbord, lpg mewn potel ac ati, a lleihau'r risg eu bod yn rhan o ddigwyddiad? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 24. A ydych yn sicrhau bod gennych ddigon o finiau sbwriel a bod yr holl sbwriel yn cael ei waredu'n gywir, allan o gyrraedd y cyhoedd? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |

| | Cam / Sylw |
|---|---|
| 25. Os oes unrhyw staff yn cysgu yn y stondin, a oes yno synhwyrydd mwg sy'n gweithio a llwybr dianc clir gyda'r nos? *Noder: ni ddylid caniatáu i bobl gysgu mewn ardal risg uchel ac mae rhai awdurdodau a digwyddiadau nad ydynt yn caniatáu cysgu mewn unedau.* ☐ Oes ☐ Nac Oes ☐ N/A | |

| Os Rhoesoch Ateb Negyddol I Unrhyw Un O'r Cwestiynau Uchod,<br>A Fyddech Cystal Â Nodi'r Camau I'w Cymryd I Unioni'r Sefyllfa. |
|---|
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stondinwr / Person Cyfrifol | | | |
| | *Llofnod* | *Argraffwch eich Enw* | *Dyddiad* |
| Swydd | | | |
| Cwmni | | | |

*NODER: nid yw'r ddogfen hon yn eich eithrio rhag y posibilrwydd o gael eich erlyn neu eich gwaredu o'r safle gan y trefnwyr os bydd arolygiad dilynol yn datgelu safonau anfoddhaol.*

**ATODIAD 4**

# Asesiad Risg Tân - Stondinau Marchnad a Masnachwyr

**TO BE COMPLETED FOR EACH UNIT/STALL IN LINE WITH NATIONALLY RECOGNISED FIRE RISK ASSESSMENT GUIDES**

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân perthnasol **RHAID** i chi gwblhau Asesiad Risg Tân o'ch stondin neu eich uned.

Mae angen i'r Asesiad Risg nodi'r peryglon tân a'r bobl mewn perygl.
Rhaid i chi ymdrechu i waredu neu leihau'r risgiau hyn a diogelu pobl rhag tân. Bydd methiant i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn golygu y gwaherddir eich uned o'r safle. Rhaid i chi gynnig ateb cadarnhaol i'r cwestiynau canlynol. Rhaid i'r ffurflen lofnodedig, gyflawn hon fod ar gael i'w harolygu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub / Trefnydd Digwyddiad / Swyddogion Cyngor ar bob adeg.

Rhaid cynnal Asesiad Risg Tân ar gyfer eich uned a rhaid iddo fod yn addas i'r amgylchiadau.
Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon a chewch ddefnyddio dull arall os dymunwch. Fodd bynnag, ystyrrir y ffurflen hon yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o unedau bwyd safonol lle nad yw cwsmeriaid yn mynd i mewn i'r uned.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiad** | | | | | |
| **Enw a Lleoliad Yr Uned** | | | | | |
| **Dyddiad/Amser** | Dechrau | | Diwedd | | |
| **Unit Details** | Person â Gofal | | | | |
| | Math a Defnydd yr Uned | | | | |
| | Maint ($m^2$) | | | | |
| | Meddiannaeth Gyfansymiol | Staff | | | |
| | | Cyhoedd | | Cyfanswm | |

| | | Cam / Sylw |
|---|---|---|
| 1. A oes allanfeydd digonol yn cael eu darparu ar gyfer nifer y bobl yn yr uned neu'r stondin? *(A ydy'r staff a'r cwsmeriaid yn gallu gadael yn hwylus os yw'r allanfa arferol wedi'i rhwystro?)* | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 2. Lle bo'r angen, a oes arwyddion cyfeirio digonol sy'n dynodi'r llwybr dianc priodol ac sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 3. A ydy'r allanfeydd a gynhelir ar gael, yn glir rhag rhwystrau, a heb eu cloi bob amser y mae'r safle yn cael ei ddefnyddio? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 4. Petai'r goleuadau arferol yn methu, a fyddai'r deiliaid yn gallu mynd allan yn ddiogel? *(Ystyriwch gael goleuadau wrth gefn)* | Byddant ☐ Na fyddant ☐ | |
| 5. A oes gennych nifer digonol o offer diffodd tân/ blancedi tân mewn mannau amlwg ac yn hwylus i'w defnyddio? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 6. A ydy'r offer ymladd tân wedi cael ei brofi yn y 12 mis diwethaf? *Noder: fel arfer bydd angen tystysgrif gydymffurfiaeth* | Ydy ☐ Nac Ydy ☐ | |
| 7. A ydy eich staff wedi cael cyfarwyddyd ynghylch sut mae gweithredu'r offer ymladd tân a ddarperir? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 8. A ydy eich staff wedi cael gwybod beth y dylent ei wneud pe bai rhywbeth yn mynd o'i le, sut mae rhybuddio pobl a gwacáu'r uned, a ble mae lleoliadau'r allanfeydd? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |

| | | Cam / Sylw |
|---|---|---|
| 9. A ydych wedi nodi deunyddiau hylosg a allai achosi i dân ledaenu'r tu hwnt i'r pwynt cynnau megis papur/cardbord, LPG mewn potel ac ati, a lleihau'r risg eu bod yn rhan o ddigwyddiad? | Ydy ☐ Nac Ydy ☐ | |
| 10. A ydych wedi nodi'r holl ffynonellau cynnau tân ac wedi sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddigon pell o'r holl ddeunyddiau fflamadwy? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 11. A ydy strwythur, to, waliau a ffitiadau eich stondin neu eich uned yn gwrthsefyll fflamau? *Noder: fel arfer bydd angen tystysgrifau cydymffurfiaeth* | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 12. Os oes unrhyw staff yn cysgu yn y stondin, a oes yno synhwyrydd mwg sy'n gweithio a llwybr dianc clir gyda'r nos? *Noder: Ni ddylid caniatáu i bobl gysgu mewn ardal risg uchel ac mae rhai Awdurdodau a digwyddiadau NAD YDYNT yn caniatáu cysgu mewn unedau.* | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 13. A ydych yn ymwybodol nad oes hawl gennych i stocio na gwerthu eitemau penodol, h.y. tân gwyllt, ffaglau gardd, canhwyllau'r cartref, goleuadau te ac ati? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 14. A oes gennych ddigon o finiau sbwriel? A ydy'r holl sbwriel yn cael ei gadw'n ddigon pell o'ch uned? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 15. A ydych yn ymwybodol nad oes hawl i gael generaduron petrol ar y safle? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| **A ydych yn defnyddio LPG?** (If 'No' ignore questions 16-25) | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 16. A oes gennych dystysgrif diogelwch nwy / arolygiad ar gyfer y peiriannau a'r pibellau (copi i fod ar gael i'w arolygu) ac a oes ffasninau crimpiedig gan yr holl gysylltiadau pibell? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 17. A ydy'r silindrau'n cael eu cadw'r tu allan, wedi'u gosod yn unionsyth yn ddiogel, ac allan o gyrraedd y cyhoedd? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 18. A ydy'r peiriannau wedi'u gosod yn sownd ar fan anhylosg sy'n inswleiddio gwres ac wedi'u hamgylchynu gan orchuddion o ddeunydd tebyg ar dair ochr? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 19. A ydy'r silindrau wedi'u lleoli'n ddigon pell o fynedfeydd, allanfeydd argyfwng, a llecynnau lle mae llawer yn cerdded? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 20. A ydy'r silindrau nwy yn hawdd eu cyrraedd fel y gellir eu hynysu'n hwylus mewn argyfwng? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 21. A ydych yn sicrhau bod yr holl gyfenwadau nwy wedi'u hynysu yn y silindr, yn ogystal â'r peiriant pan nad yw'r cyfarpar yn cael ei ddefnyddio? | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 22. A ydych yn sicrhau mai'r silindrau sy'n cael eu defnyddio yn unig a gedwir yn eich uned/stondin? *(Dylid cadw cyn lleied â phosibl ohonynt yn sbâr gan wneud hynny'n unol ag unrhyw amodau penodol ar gyfer y digwyddiad)* | Ydw ☐ Nac Ydw ☐ | |
| 23. A oes aelod o staff, sydd wedi cael hyfforddiant priodol o ran defnyddio LPG yn ddiogel, yn bresennol yn yr uned / stondin bob amser? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |

| Os rhoesoch ateb negyddol i unrhyw un o'r cwestiynau uchod,<br>a fyddech cystal â nodi'r camau i'w cymryd i unioni'r sefyllfa. |
|---|
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stondinwr / Person Cyfrifol | | | |
| | *Llofnod* | *Argraffwch eich Enw* | *Dyddiad* |
| Swydd | | | |
| Cwmni | | | |

*NODER: nid yw'r ddogfen hon yn eich eithrio rhag y posibilrwydd o gael eich erlyn neu eich gwaredu o'r safle gan y trefnwyr os bydd arolygiad dilynol yn datgelu safonau anfoddhaol.*

**ATODIAD 5**

# Asesiad Risg Tân - Strwythurau Dros Dro

**TO BE COMPLETED FOR EACH UNIT/STALL IN LINE WITH NATIONALLY RECOGNISED FIRE RISK ASSESSMENT GUIDES**

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân perthnasol **RHAID** i chi gwblhau Asesiad Risg Tân o'ch stondin neu eich uned.

Mae angen i'r Asesiad Risg nodi'r peryglon tân a'r bobl mewn perygl.
Rhaid i chi ymdrechu i waredu neu leihau'r risgiau hyn a diogelu pobl rhag tân. Bydd methiant i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn golygu y gwaherddir eich uned o'r safle. Rhaid i chi gynnig ateb cadarnhaol i'r cwestiynau canlynol. Rhaid i'r ffurflen lofnodedig, gyflawn hon fod ar gael i'w harolygu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub / Trefnydd Digwyddiad / Swyddogion Cyngor ar bob adeg.

Rhaid cynnal Asesiad Risg Tân ar gyfer eich uned a rhaid iddo fod yn addas i'r amgylchiadau.
Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon a chewch ddefnyddio dull arall os dymunwch. Fodd bynnag, ystyrrir y ffurflen hon yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o unedau bwyd safonol lle nad yw cwsmeriaid yn mynd i mewn i'r uned.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiad** | | | | |
| **Enw Safle'r Digwyddiad a'r Lleoliad** | | | | |
| **Dyddiad/Amser** | Dechrau | | Gorffen | |
| **Unit Details** | Person Cyfrifol | | | |
| | Math o Strwythur | | | |
| | Nifer y Lloriau | | | |
| | Maint ($m^2$) | | | |
| | Uchafswm Deiliadaeth | Staff | | |
| | | Y cyhoedd | | Cyfanswm |

| | | | | | Cam Gweithredu / Sylw |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. A oes cynllun argyfwng effeithiol ar gyfer y safle? | Oes | | Nac Oes | | |
| 2. A oes digon o bobl gymwys i reoli'r digwyddiad? | Oes | | Nac Oes | | |
| 3. A oes ffyrdd o reoli nifer y deiliaid? | Oes | | Nac Oes | | |
| 4. A oes rhybuddion digonol ynghylch tân? | Oes | | Nac Oes | | |
| 5. A oes allanfeydd tân addas ar gael? e.e. A ydynt yn agor i'r cyfeiriad y bydd pobl yn dianc iddo? | Oes | | Nac Oes | | |
| 6. A oes nifer digonol o allanfeydd tân ar gyfer y niferoedd deiliadaeth? | Oes | | Nac Oes | | |
| 7. A oes gan yr allanfeydd tân ddigon o'r arwyddion cywir? | Oes | | Nac Oes | | |
| 8. A ydy'r llwybrau dianc mewnol wedi'u dynodi'n glir? | Ydyn | | Nac Ydyn | | |
| 9. A ydy'r llwybrau dianc yn glir rhag rhwystrau? | Ydyn | | Nac Ydyn | | |
| 10. A oes goleuadau digonol mewn argyfwng ar gael? | Oes | | Nac Oes | | |
| 11. A ydy'r holl ffynonellau cynnau tân wedi'u nodi? | Ydyn | | Nac Ydyn | | |
| 12. A oes mesurau rheoli addas ar waith i leihau/ rheoli'r ffynonellau cynnau tân? | Oes | | Nac Oes | | |
| 13. A oes silindrau LPG yn cael eu defnyddio a/neu eu storio yn y man cynnal? (Os yw'n amhriodol ewch i 15) | Oes | | Nac Oes | Nac Oes | |
| 14. A oes mesurau rheoli addas ar waith ar gyfer LPG? | Oes | | Nac Oes | | |

| | | Cam Gweithredu / Sylw |
|---|---|---|
| 15. A oes offer ymladd tân digonol ac addas yn cael ei ddarparu? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 16. A ydy'r staff yn cael hyfforddiant ynghylch sut mae defnyddio offer ymladd tân? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 17. A ydy'r deunyddiau strwythurol a'r addurniadau/ pethau sy'n hongian yn gallu gwrthsefyll tân? | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |
| 18. A oes gan y man cynnal fynediad addas i beiriant tân? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 19. A oes o leiaf 6 metr rhwng y strwythurau? | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 20. A oes darpariaeth ar waith i helpu pobl sydd mewn mwy o berygl? e.e. pobl anabl. | Oes ☐ Nac Oes ☐ | |
| 21. A ydy diogelwch pobl ifanc wedi cael ei ystyried? | Ydy ☐ Nac Ydy ☐ | |
| 22. A ydy effeithiau posibl cynnau tân yn fwriadol wedi cael eu hystyried? e.e. cwrt cadw sbwriel. | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ | |

| Os rhoesoch ateb negyddol i unrhyw gwestiwn, nodwch y camau i'w cymryd i unioni'r sefyllfa. |
|---|
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stondinwr / Person Cyfrifol | | | |
| | *Llofnod* | *Argraffwch eich Enw* | *Dyddiad* |
| Swydd | | | |
| Cwmni | | | |

*NODER: nid yw'r ddogfen hon yn eich eithrio rhag y posibilrwydd o gael eich erlyn neu eich gwaredu o'r safle gan y trefnwyr os bydd arolygiad dilynol yn datgelu safonau anfoddhaol.*

ATODIAD 6

# Dogfennau Canllaw

## Canllawiau Cyffredinol

Bydd y wefan hon yn helpu trefnwyr i gynnal digwyddiadau yn ddiogel. Efallai y bydd y wefan yn ddefnyddiol i eraill hefyd, e.e. contractwyr, ymgynghorwyr iechyd a diogelwch a gweithwyr mewn digwyddiadau
www.hse.gov.uk/event-safety/index.htm

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau ymarferol ar reoli torfeydd yn ddiogel
www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg154.htm

I helpu trefnwyr digwyddiadau sydd â dyletswydd i reoli iechyd a diogelwch, yn enwedig cerddoriaeth ar raddfa fawr a digwyddiadau tebyg.
www.thepurpleguide.co.uk

Canllawiau ar Ddiogelwch Strwythur Offer ag Aer
www.pipa.org.uk/index.asp

Canllawiau ar Strwythurau Dros Dro, Pebyll a Phebyll Mawr
www.muta.org.uk/MUTAMembers/media/MUTAMembersMedia/PDFs/MUTA-s-Best-Practice-Guide,-November-2014.pdf

www.hse.gov.uk/event-safety/temporary-demountable-structures.htm

## Canllawiau Diogelwch Tân

Cyfarwyddyd Asesiad Risgiau Tân ar gyfer Digwyddiadau Awyr Agored
www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/14891/fsra-open-air.pdf

Canllawiau ar Strwythurau Dros Dro, Pebyll a Phebyll Mawr
www.muta.org.uk/MUTAMembers/media/MUTAMembersMedia/PDFs/MUTA-s-Best-Practice-Guide,-November-2014.pdf

Ffurflen Asesiad Risgiau Tân Consesiynau Bwyd
www.cfoa.org.uk/11544

Ffurflen Asesiad Risg Masnachwyr a Stondinau Marchnad
www.cfoa.org.uk/11544

Temporary Structures Fire Risk Assessment
www.cfoa.org.uk/11544

Code of Practice 24: Part 4 - Use of LPG Cylinders: The Use of LPG for Catering at Outdoor Functions (March 1999)
www.uklpg.org/shop/codes-of-practice/use-of-lpg-cylinders-the-use-of-lpg-for-catering-at-outdoor-functions-march-1999/